



# Economeg Iechyd a Gofal Cymru

## Health and Care Economics Cymru



Ymchwil Iechyd  
a Gofal Cymru  
Health and Care  
Research Wales



Ariennir gan  
Lywodraeth Cymru  
Funded by  
Welsh Government

## 2025- 2026

### Adroddiad blynyddol



# Cynnwys

|                                                                                   |           |
|-----------------------------------------------------------------------------------|-----------|
| <b>Canolbwyntio ar Effaith: Myfyrdodau o WHEG 2026</b>                            | <b>1</b>  |
| <b>Cyflwyniad i HCEC</b>                                                          | <b>2</b>  |
| <b>Ein Pobl a'n Strwythur</b>                                                     | <b>3</b>  |
| <b>Cipolwg ar ein Cyfnod Gwobruo</b>                                              | <b>4</b>  |
| <b>Myfyrio ar Amrywiaeth ac Effaith ein Cyflawniadau</b>                          | <b>5</b>  |
| <b>Optimeiddio Cydweithrediad ag Ymchwilwyr<br/>Iechyd a Gofal Cymdeithasol</b>   | <b>6</b>  |
| <b>Cynnwys ac Ymgysylltu â Chleifion a'r Cyhoedd</b>                              | <b>9</b>  |
| <b>Darparu Cyngor a Chefnogaeth Economeg Iechyd</b>                               | <b>10</b> |
| <b>Cyfrannu Arbenigedd Economeg Iechyd i Wneud<br/>Penderfyniadau a Pholisïau</b> | <b>12</b> |
| <b>Adeiladu Gallu Methodolegol mewn Economeg<br/>Iechyd</b>                       | <b>15</b> |
| <b>Ein Prif Gyhoeddiadau</b>                                                      | <b>20</b> |
| <b>Ein Prif Gydweithredwyr</b>                                                    | <b>22</b> |
| <b>Dyfodol Economeg Iechyd</b>                                                    | <b>23</b> |
| <b>Darganfod Rhagor</b>                                                           | <b>24</b> |

# CANOLBWYNTIO AR EFFAITH: MYFYRDODAU O GRŴP ECONOMEGWYR IECHYD CYMRU (WHEG) 2026

Ym mis Mawrth 2026, cawsom y pleser o groesawu pawb i gyfarfod blynyddol Grŵp Economegwyr Iechyd Cymru (WHEG), a oedd yn dod â chydweithwyr o bob rhan o gymuned economeg iechyd Cymru a thu hwnt at ei gilydd. Sefydlwyd y Grŵp dros 20 mlynedd yn ôl, ac mae wedi esblygu i fod yn fforwm pwysig ar gyfer cydweithio, myfyrio a dysgu ar y cyd ym maes ymchwil, polisi ac ymarfer.

Eleni roedd y cyfarfod yn canolbwyntio ar effaith — sut mae economeg iechyd yn cyfrannu tuag at newid yn y byd go iawn, a sut y gallwn gofnodi, dangos tystiolaeth a chryfhau'r cyfraniad hwnnw'n well yng nghylch bywyd ein gwaith. Roedd dros 45 o bobl yn bresennol o grwpiau seilwaith Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Technoleg Iechyd Cymru, byrddau iechyd a'r byd academaidd, felly roedd y trafodaethau'n adlewyrchu ehangder, amrywiaeth a dylanwad cynyddol y gymuned economeg iechyd yng Nghymru.

Drwy gydol y cyfarfod, bu'r siaradwyr yn sôn am bwysigrwydd ymwreiddio effaith o ddechrau un gweithgaredd ymchwil, yn hytrach na'i weld fel rhywbeth sy'n cael ei ystyried ar y diwedd yn unig. Roedd y trafodaethau'n ystyried sut y gall economeg iechyd helpu i ddatblygu polisïau, a chefnogi gweithredu a thrawsnewid gwasanaethau mewn ystod eang o feysydd, gan gynnwys ffarmacogenomeg, iechyd menywod, gofal radiotherapi, iechyd cyhoeddus ac ymchwil i ansawdd bywyd.

Roedd y cyfarfod hefyd yn dangos cryfder ein cydweithrediadau rhyngddisgyblaethol a thwf parhaus cymuned economeg iechyd Cymru. Roedd yn arbennig o galonogol gweld ymchwilwyr gyrfa gynnar yn datblygu i fod yn arweinwyr ymchwil, gan ddangos gwerth cefnogi a mentora'r genhedlaeth nesaf o ymchwilwyr.

Un thema a oedd yn dod i'r amlwg yn gyson drwy gydol y diwrnod oedd pwysigrwydd sicrhau bod economeg iechyd yn parhau i fod yn rhagoriaeth fethodolegol, a hefyd ei bod yn gwella canlyniadau i bobl a chymunedau. Cyfeiriodd y siaradwyr at yr angen i ehangu sgysiau am werth, atal, anghydraddoldeb a phenderfynyddion ehangach iechyd, tra'n parhau i gryfhau cyfraniad Cymru i drafodaethau am economeg iechyd yn y DU ac yn rhyngwladol.

Roedd y trafodaethau'n atgyfnerthu pwysigrwydd partneriaeth, cydweithredu a buddsoddi parhaus mewn seilwaith ymchwil sy'n canolbwyntio ar effaith. Wrth i HCEC barhau drwy ei gylch dyfarnu cynaliadwyedd tuag at 2030, rydym yn parhau â'n hymrwymiad i gefnogi ymchwil economeg iechyd o safon uchel, sy'n berthnasol i bolisïau, ac sy'n darparu effaith ystyrlon i systemau iechyd a gofal yng Nghymru a thu hwnt.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn adlewyrchu'r ymrwymiad cyffredin hwn ac yn dangos ehangder y gwaith, y cydweithio a'r effaith a gyflawnwyd ar draws ein rhwydwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

*Yr Athro Deb Fitzsimmons*

# CYFLWYNIAD I HCEC


Mae Economeg Iechyd a Gofal Cymru (HCEC) yn grŵp seilwaith ymchwil cydweithredol ar gyfer Cymru gyfan sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Ein nod yw darparu rhagoriaeth o'r radd flaenaf mewn ymchwil economeg iechyd, ei methodoleg a'i chymhwysiad.

Rydym yn ymdrechu i gynnal a thyfu cymuned o arbenigwyr economeg iechyd yng Nghymru, â chydweithrediadau cryf ar draws y sector iechyd a gofal, gan wneud gwahaniaeth cadarnhaol i ymchwil iechyd a gofal a phobl sy'n elwa ohono. Drwy wneud hyn, rydym yn helpu i gynhyrchu tystiolaeth o safon uchel sy'n hollbwysig er mwyn gwneud y penderfyniadau gorau posibl i wella canlyniadau iechyd a gofal i bobl yng Nghymru a thu hwnt.

## EIN CENHADAETH

*'Darparu arbenigedd economeg iechyd o'r radd flaenaf (gan ddefnyddio dull gweithredu integredig ystwyth drwy Gymru gyfan ar y cyd) er mwyn galluogi ymchwil a datblygu rhagorol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru er budd cleifion, y cyhoedd a'r economi'.*

## Methodoleg a Chymhwysiad



# EIN POBL A’N STRWYTHUR

## EIN CYD-GYFARWYDDWYR



*Yr Athro Deb Fitzsimmons  
Canolfan Economeg Iechyd  
Abertawe (SCHE),  
Prifysgol Abertawe*



*Yr Athro Rhiannon Tudor  
Edwards Canolfan Economeg  
Iechyd a Gwerthuso  
Meddyginiaethau (CHEME),  
Prifysgol Bangor*


Mae HCEC yn parhau i ffynnu drwy ei ethos cynhwysol, cydweithredol a chryfder ei gymuned o arbenigwyr economeg iechyd ym mhob cwr o Gymru. Mae ein model cyd-gyfarwyddiaeth yn parhau’n gonglfaen i’n llwyddiant, gan feithrin arweinyddiaeth a rennir, atebolrwydd ar y cyd, a gweledigaeth strategol glir. Eleni, rydym wedi cryfhau’r cysylltiadau rhwng ein dwy ganolfan ymhellach, gan adeiladu diwylliant tîm cydlynol sy’n hybu arloesedd, cefnogi’n gilydd, ac effaith ar y cyd. Drwy weithio gyda’n gilydd fel un gymuned, rydym yn sicrhau bod HCEC yn parhau i ddarparu rhagoriaeth mewn economeg iechyd ledled Cymru.

## EIN STRWYTHUR LLYWODRAETHU



### Bwrdd Cyngori

**Cadeirydd Annibynnol:** Yr Athro Steve Morris (Prifysgol Caergrawnt)  
Karen Harrington (Cyfrannwr cyhoeddus), Nathan Davies (Cyfrannwr cyhoeddus), Dr Brendan Collins (Prifysgol Lerpwl), Dr Emma Taylor-Collins (Gofal Cymdeithasol Cymru), Yr Athro Ceri Phillips (Prifysgol Abertawe), Yr Athro Rod Taylor (Prifysgol Glasgow), Yr Athro Jim McManus (Iechyd Cyhoeddus Cymru), Yr Athro Dyfrig Hughes (Prifysgol Bangor)



Dr Mari Jones, Dr Shaun Harris,  
Megan Davies, Ffion Davies,  
Josh Parsons

**Ymchwilyr HCEC**  
(Cefnogir yr holl staff gan nifer o arianwyr)

Dr Victory Ezeofor, Dr Bethany Anthony,  
Dr Huw Lloyd Williams, Pim Dounsang,  
Greg Flynn, Anusha Singh

# CIPOLWG AR EIN CYFNOD GWOBURUO

**Metrigau Craidd**  
Cyfnod adrodd: **2025/2026**

 Economeg Iechyd a Gofal Cymru  
Health and Care Economics Cymru

**Gwobr seilwaith  
Ymchwil Iechyd a  
Gofal Cymru i'r grŵp**



Cyllid  
uniongyrchol  
a ddyfarnwyd

**£373,163**

Swyddi a  
grëwyd drwy  
gyllid  
uniongyrchol



## Grantiau a enillwyd yn ystod y cyfnod adrodd

| Grantiau a enillwyd                       | Dan arweiniad<br>y grŵp | Grŵp yn<br>cydweithio |
|-------------------------------------------|-------------------------|-----------------------|
| Nifer                                     | <b>8</b>                | <b>10</b>             |
| Gwerth                                    | <b>£625,311</b>         | <b>£7,787,161</b>     |
| Cyllid i Gymru                            | <b>£513,635</b>         | <b>£6,354,117</b>     |
| Cyllid i grŵp                             | <b>£474,635</b>         | <b>£460,514</b>       |
| Swyddi ychwanegol a grëwyd ar gyfer Cymru | <b>4</b>                | <b>18</b>             |
| Swyddi ychwanegol a grëwyd ar gyfer grŵp  | <b>4</b>                | <b>7</b>              |



## CYNNAL EFFAITH AC ADEILADU AR GYFER Y DYFODOL

Mae HCEC yn parhau i gryfhau ei rôl fel arweinydd mewn ymchwil economeg iechyd yng Nghymru drwy geisiadau llwyddiannus am grantiau, cyhoeddiadau o safon uchel, datblygu talentau ac ehangu cydweithrediadau rhyngddisgyblaethol.

Mae buddsoddi mewn ymchwilwyr gyrfa gynnar wedi bod yn flaenoriaeth allweddol drwy gydol y cyfnod dyfarnu hwn, gan helpu i ddatblygu arweinwyr ymchwil y dyfodol a chryfhau capasiti economeg iechyd ledled Cymru.

Ym mis Ebrill 2025, dechreuasom ein cyfnod dyfarnu cyllid cynaliadwyedd presennol gan Lywodraeth Cymru drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Ynghyd â chefnogaeth barhaus gan y prifysgolion a'r cydweithredwyr sy'n bartneriaid i ni, mae hyn yn darparu sylfeini cryf ar gyfer cam nesaf twf ac effaith HCEC.

# MYFYRIO AR AMRYWIAETH AC EFFAITH EIN CYFLAWNIADAU

*Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae HCEC wedi parhau i gryfhau ei gyfraniad i ymchwil iechyd a gofal yng Nghymru a thu hwnt. Mae ein gwaith wedi mynd i'r afael ag ystod eang o heriau iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys dementia, gofal brys, iechyd meddwl, iechyd menywod, lles cyn-filwyr, gwasanaethau golwg, gofal anadlol ac anghydraddoldebau iechyd. Drwy gydweithio â sefydliadau'r GIG, prifysgolion, llunwyr polisïau, elusennau a phartneriaid cymunedol, mae ymchwilwyr HCEC wedi cyfrannu tuag at brosiectau a gynlluniwyd er mwyn gwella canlyniadau iechyd, cryfhau gwasanaethau a chefnogi prosesau gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.*

## Sicrhau dyfarniadau ymchwil o safon uchel ac incwm i Gymru

Mae HCEC wedi arwain gwerthusiadau economeg iechyd mewn treialon clinigol newydd gan NIHR ac astudiaethau yn y byd go iawn yn ystod ein cyfnod dyfarnu, gan atgyfnerthu ein rôl fel partner y gellir ymddiried ynddo i gyflawni ymchwil o safon uchel.

## Cynnwys ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Mae cynnwys y cyhoedd a chydgyhyrchu wedi parhau'n ganolog i'n gwaith drwy gydol y flwyddyn, gan helpu i sicrhau bod ymchwil yn seiliedig ar brofiad personol ac yn canolbwyntio ar y materion pwysicaf i bobl a chymunedau.

## Datblygu Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar

Mae'r flwyddyn wedi amlygu cyfraniad cynyddol ymchwilwyr gyrfa gynnar a chanol gyrfa HCEC, â llawer o gydweithwyr yn arwain prosiectau yn cael eu hariannu, gan roi cyflwyniad mewn digwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol, a datblygu cydweithrediadau newydd yng Nghymru, y DU ac Ewrop.

Mae cryfder HCEC yn ei phobl. Rydym wedi buddsoddi'n sylweddol er mwyn datblygu'r genhedlaeth nesaf o ymchwilwyr economeg iechyd yng Nghymru. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn rhoi enghreifftiau o sut mae HCEC wedi cefnogi twf proffesiynol aelodau ein tîm.

Mae'r adrannau a ganlyn yn dangos rhai o'r prif brosiectau, partneriaethau a chyflawniadau sydd wedi siapio gwaith HCEC yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

## Cefnogi rhagoriaeth ymchwil

Mae HCEC yn parhau â'i ymrwymiad i sicrhau llwyddiant gydag arianwyr cenedlaethol a rhyngwladol mawr fel yr NIHR, ynghyd â'n gwaith gyda byrddau iechyd lleol a sefydliadau eraill lle mae'r pwyslais ar sicrhau effaith drwy gynhyrchu tystiolaeth ar gyfer newid polisïau a/neu ymarfer.

## Sicrhau dyfarniadau ymchwil o safon uchel ac incwm i Gymru

Mae ymchwilwyr HCEC gyda'i gilydd wedi darparu 31 o gyhoeddiadau wedi'u hadolygu gan gymheiriaid, ac mae awduron cyntaf 16 o'r rhain yn aelodau o HCEC. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn tynnu sylw at ein papurau mwyaf nodedig. Mae'r cyhoeddiadau hyn yn rhychwantu ystod eang o bynciau, gan ddangos ehangder ein harbenigedd methodolegol.

Mae ein hymchwil wedi archwilio sut y gall gwasanaethau iechyd a gofal fod yn fwy effeithiol, teg a chynaliadwy. Mae hyn wedi cynnwys gwaith i:

- Wella llwybrau gofal argyfwng a gofal brys.
- Cefnogi pobl sy'n byw â chyflyrau hirdymor.
- Lleihau anghydraddoldebau iechyd.
- Cryfhau atal ac ymyrryd yn gynnar.
- Gwella mesuriadau canlyniadau a adroddir gan gleifion.
- Deall gwerth cymdeithasol ac economaidd ehangach ymyriadau iechyd a lles.

# OPTIMEIDDIO CYDWEITHREDIAD AG YMCHWILWYR IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

Mae cydweithredu yn parhau'n ganolog i waith HCEC. Yn ystod y flwyddyn, bu ymchwilwyr HCEC yn gweithio mewn cysylltiad agos â sefydliadau'r GIG, prifysgolion, elusennau, llunwyr polisïau a phartneriaid rhyngwladol er mwyn rhoi sylw i ystod eang o heriau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r cydweithrediadau hyn wedi cryfhau cyfleoedd ar gyfer ymchwil economeg iechyd gymhwysol, cefnogi gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a galluogi datblygiad dulliau arloesol o wella iechyd a lles yng Nghymru a thu hwnt.

## ASTUDIAETH BEILOT REFINE

### GWELLA GOFAL ARGYFWNG I FABANOD DRWY YMCHWIL GYDWEITHREDOL

Mae ymchwilwyr HCEC yn gweithio ochr yn ochr ag ymgynghorwyr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Belfast ar astudiaeth beilot REFINE, sy'n ymchwilio i weld a allai profion cyflym ar gyfer feirysau leihau triniaethau diangen, defnydd o wrthfotigau, a derbyniadau i ysbytai ar gyfer babanod sy'n dod i adrannau argyfwng â gwres uchel.

Mae'r prosiect yn archwilio a allai profion cyflym ar gyfer feirysau, sy'n defnyddio swab syml o'r trwyn, helpu clinigwyr i adnabod heintiau feirysol yn gyflymach ac yn fwy diogel, a thrwy hynny leihau triniaethau mewnwithiol diangen o bosibl a gwella'r profiad fel claf i fabanod a theuluoedd.

Mae'r astudiaeth yn adlewyrchu rhan gynyddol HCEC mewn ymchwil stiwardiaeth wrthficrobaidd a gwerthuso gofal argyfwng pediatrig.

### Effaith yr ymchwil

- Cefnogi gofal mwy diogel a llai mewnwithiol i fabanod mewn adrannau argyfwng.
- Archwilio ffyrdd o leihau defnydd diangen o wrthfotigau a derbyniadau i ysbytai.
- Darparu gwybodaeth er mwyn datblygu canllawiau ymchwil a chlinigol ledled y DU yn y dyfodol.

## GOFAL RHAGWEITHIOL

### CEFNOGI GOFAL MWY RHAGWEITHIOL I GYN-FILWYR

### Effaith yr ymchwil

- Cefnogi modelau gofal mwy ataliol a chydgysylltiedig i gyn-filwyr.
- Darparu gwybodaeth ar gyfer ymchwil yn y dyfodol i wasanaethau cefnogi cynaliadwy ar gyfer cyn-filwyr.

Mae ymchwilwyr HCEC yn cydweithio â Phrifysgol Northumbria, Prifysgol Caerdydd a Chymdeithas y Lluoedd Awyr Brenhinol er mwyn datblygu astudiaeth ddichonoldeb sy'n canolbwyntio ar wella gwasanaethau i gefnogi iechyd a lles cyn-filwyr.

Mae'r prosiect yn archwilio model gofal mwy rhagweithiol ac ataliol drwy ymchwilio i weld sut y gellid integreiddio asesiadau iechyd a gofal cymdeithasol mewn gwasanaethau gofal sylfaenol a'u cysylltu'n agosach â sefydliadau cefnogi cyn-filwyr a gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol.



# Cipolwg ar...

Y CELFYDDYDAU AR GYFER IECHYD

## ASESU EFFAITH ECONOMAIDD Y CELFYDDYDAU AR IECHYD A LLES YNG NGHYMRU

Roedd un o brosiectau cydweithredol mwyaf arwyddocaol HCEC eleni yn ymwneud â gweithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru a Phrifysgol Edge Hill er mwyn asesu effeithiau ehangach y celfyddydau a gweithgareddau diwylliannol ar ieched, lles a rhyngweithio cymdeithasol pobl ledled Cymru.

Roedd y prosiect yn dod ag arbenigedd mewn economeg ieched, ieched cyhoeddus ac ymchwil i'r celfyddydau a llesiant at ei gilydd i archwilio sut y gall cyfranogi yn y celfyddydau a rhaglenni diwylliannol gyfrannu tuag at well llesiant, cysylltiad cymdeithasol a chanlyniadau cymdeithasol ehangach.

Roedd y gwaith a oedd yn cael ei arwain gan ymchwilydd gyrfa gynnar HCEC Jacob Davies, yn cyfuno adolygiadau o dystiolaeth â dadansoddiad economaidd er mwyn cael gwell dealltwriaeth o werth ehangach mentrau yn ymwneud â'r celfyddydau ac ieched. Roedd y prosiect yn cynnwys mapio gweithgareddau yn ymwneud â'r celfyddydau ac ieched ledled Cymru, adolygu tystiolaeth o effeithiau ieched a gofal cymdeithasol, ac amcangyfrif cyfraniad economaidd ehangach rhaglenni sy'n seiliedig ar y celfyddydau.



Roedd y canfyddiadau'n amlygu'r potensial i'r celfyddydau ac ymgysylltiad diwylliannol helpu i wella llesiant, gwydnwch cymunedol ac agweddau ar ieched a gofal sy'n canolbwyntio ar atal. Mae canfyddiadau o'r prosiect eisoes wedi'u cyflwyno i Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar y Celfyddydau ac Ieched ac wedi'u rhannu â phartneriaid cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae'r cydweithrediad hefyd yn adlewyrchu ymrwymiad HCEC i gefnogi ymchwilwyr gyrfa gynnar, partneriaethau rhyngddisgyblaethol ac ymchwil sy'n mynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach ieched.

EFFAITH YR YMCHWIL

Cefnogi trafodaethau cenedlaethol yn ymwneud â'r celfyddydau, llesiant ac atal.

Darparu gwybodaeth ar gyfer sgysiau polisi yn ymwneud ag ieched, gofal cymdeithasol a diwylliant.

Arddangos gwerth cymdeithasol ac economaidd ehangach cyfranogi yn y celfyddydau.

Cefnogi arweinyddiaeth ymchwilwyr gyrfa gynnar a chydweithrediad rhyngddisgyblaethol.



# CEFNOGI ARLOESED Mewn Iechyd Llygaid A Gwasanaethau Golwg

## CADWRFA OFFTHALMOLEG A GWYDDOR GOLWG BANGOR (BOPPP)

Arweiniodd ymchwilwyr HCEC Jacob Davies a Pim Doungsong y gwaith o ddatblygu Cadwrfâ Offthalmoleg a Gwyddor Golwg Bangor (BOPPP), adnodd ar-lein di-dâl sy'n dod â gwybodaeth am ganlyniadau a adroddir gan gleifion a dulliau o fesur profiad a ddefnyddir mewn ymchwil gwyddor golwg at ei gilydd.

Mae'r gadwrfâ, a ddatblygwyd ar y cyd â chlinigwyr, economegwyr iechyd ac academyddion ym maes gwyddor golwg, wedi'i chynllunio er mwyn cynorthwyo ymchwilwyr a gweithwyr gofâl iechyd proffesiynol i ddewis dulliau mesur priodol ar gyfer treialon clinigol a gwerthusiadau economeg iechyd yn ymwneud ag iechyd golwg.

Mae'r prosiect yn seiliedig ar gyfres o adolygiadau systematig yn archwilio defnydd, ansawdd ac addasrwydd mesurau a adroddwyd gan gleifion ym maes offthalmoleg ac ymchwil gwyddor golwg. Roedd hyn yn cynnwys adolygiadau o fesurau canlyniadau a adroddwyd gan gleifion (PROMs), mesurau profiad a adroddwyd gan gleifion (PREMs), a mesurau seiliedig ar ddewisiadau a ddefnyddir mewn cyflyrau llygaid.

Gyda'i gilydd, mae'r gwaith hwn wedi helpu i greu sail dystiolaeth gadarn i gefnogi dulliau mwy cyson a seiliedig ar dystiolaeth o fesur canlyniadau mewn ymchwil iechyd llygaid a threialon clinigol yn y dyfodol.

Mae cadwrfâ BOPPP yn darparu adnodd mynediad agored, di-dâl a fydd yn cefnogi ymchwil, gwneud penderfyniadau clinigol a datblygu gwasanaethau gofâl llygaid sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn y dyfodol.

## ASESU A YW'N HYFYW I YMARFERWYR ANFEDDYGOL ROI TRINIAETH FFOTOGEULO AR GYFER RETINOPATHI DIABETIG AMLHAOL (AVENUE-PDR)

Parhaodd ymchwilwyr HCEC i gryfhau cydweithrediadau mewn ymchwil iechyd llygaid a gwasanaethau golwg drwy waith gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Prifysgol Caerdydd a phartneriaid ehangach ledled Cymru.

Un prosiect allweddol eleni yw astudiaeth ddichonoldeb AVENUE-PDR, sy'n ystyried a allai ymarferwyr gofâl llygaid sydd wedi cael hyfforddiant penodol roi triniaeth laser yn ddiogel ar gyfer clefyd diabetig y llygaid. Ar hyn o bryd, dim ond offthalmolegwyr sy'n rhoi'r triniaethau hyn, er bod pwysau cynyddol ar wasanaethau gofâl llygaid a bod y rhestrau aros yn mynd yn hirach yng Nghymru a'r DU.

Mae'r astudiaeth yn ymchwilio i weld a allai ehangu rôl ymarferwyr gofâl llygaid anfeddygol wella mynediad at driniaeth fuan, lleihau amseroedd aros a helpu i ddarparu gwasanaethau offthalmoleg mwy cynaliadwy. Bu ymchwilwyr HCEC yn cydweithio i ddatblygu'r cynnig a'r cynllun ymchwil, gan helpu i sicrhau bod yr effeithiau ar y gweithlu, capasiti'r gwasanaeth ac ystyriaethau economaidd yn cael eu cynnwys o'r dechrau un.

## Effaith yr Ymchwil



- Cefnogi ymchwil sydd wedi'i anelu er mwyn gwella mynediad buan at ofal llygaid a lleihau amseroedd aros.
- Archwilio dulliau arloesol o ddefnyddio'r gweithlu mewn gwasanaethau offthalmoleg.
- Datblygu cadwrfâ ar-lein ddi-dâl i gefnogi ymchwil golwg a threialon clinigol yn y dyfodol.
- Cryfhau dulliau mesur canlyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn offthalmoleg ac ymchwil gwyddor golwg.

# CYNNWYS AC YMGYSYLLTU Â CHLEIFION A'R CYHOEDD

Mae Cynnwys ac Ymgysylltu â Chleifion a'r Cyhoedd (PPIE) yn parhau'n ganolog i waith HCEC. Rydym yn parhau i gryfhau ein hymrwymiad i gynnwys pobl a chymunedau yn y broses o siapio ymchwil economeg iechyd a gofal ledled Cymru.

Mae cynnwys y cyhoedd mewn ffordd ystyrlon yn helpu i sicrhau bod cwestiynau ymchwil, dulliau o fesur canlyniadau a phenderfyniadau ynglŷn â gwerth yn adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig i gleifion, gofalwyr a chymunedau. Mae hyn yn cryfhau perthnasedd, ansawdd ac effaith gwerthusiad economaidd ac yn cefnogi polisi ac ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Yn ystod y flwyddyn hon, parhaodd HCEC i ddatblygu ei weithgareddau cynnwys ac ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd, gan ganolbwyntio ar ymwreiddio cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant drwy gydol cylch bywyd ymchwil. Ym mis Tachwedd 2025, darparodd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru weithdy gyda HCEC ar ddatblygu ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol ac ymwreiddio cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Datblygwyd datganiad cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant HCEC ar y cyd yn ystod y sesiwn hon, gan amlinellu egwyddorion a rennir ar gyfer cynnwys y cyhoedd mewn ffordd ystyrlon ym mhob rhan o'n gwaith.

Rydym yn parhau i adeiladu rhwydwaith o gynrychiolwyr cyhoeddus o bob cwr o Gymru i gyfrannu tuag at ystod o weithgareddau ymchwil, gan gynnwys datblygu astudiaethau, ceisiadau am grant, lledaenu deunyddiau a gwaith ymgysylltu ehangach. Mae dulliau hyblyg a chynhwysol o gynnwys yn parhau'n flaenoriaeth, gan helpu i leihau rhwystrau sy'n atal cyfranogiad ac yn cefnogi ymgysylltiad gan gymunedau a lleisiau sy'n aml yn cael eu tangynrychioli mewn ymchwil.

Rydym yn gweld cynnwys ac ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd fel ymchwil gydwethredol lle mae'r cyhoedd yn siapio ac yn llywio gweithgareddau ymchwil.

Mae cynnwys ac ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd yn cryfhau ymchwil drwy:

- Siapio cwestiynau ymchwil sy'n adlewyrchu blaenoriaethau pobl a chymunedau.
- Gwella hygyrchedd, perthnasedd a derbynioldeb dylunio ymchwil.
- Cefnogi dehongli ystyrlon a rhannu canfyddiadau.
- Cynyddu'r potensial i ymchwil ddylanwadu ar bolisi ac ymarfer.

Drwy ymwreiddio lleisiau'r cyhoedd, ein nod yw darparu ymchwil sy'n gynhwysol, yn berthnasol ac effeithiol i'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

## FYDDECH CHI'N HOFFI BOD YN RHAN O HYN?

Mae cyfranwyr cyhoeddus wedi cefnogi ymchwil HCEC drwy weithdai, cyfarfodydd, adolygu dogfennau a gweithgareddau ymgysylltu â chymunedau, gan helpu ymchwilwyr i gryfhau hygyrchedd, derbynioldeb a pherthnasedd eu gwaith i'r byd go iawn.

Os hoffech fynegi diddordeb cysylltwch ag Arweinydd Strategol Cynnwys ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd: Dr Ceryl Teleri Davies: [ceryl.davies@bangor.ac.uk](mailto:ceryl.davies@bangor.ac.uk)

Wrth i HCEC symud i'w gam cynaliadwyedd, bydd cynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn parhau'n rhan greiddiol o'n gweledigaeth er mwyn darparu ymchwil economeg iechyd effeithiol, gynhwysol a pherthnasol i bolisiau yng Nghymru.

# DARPARU CYNGOR A CHEFNOGAETH ECONOMECH IECHYD

Mae HCEC wedi parhau i ddarparu arbenigedd economech iechyd gymhwysol mewn ystod amrywiol o brosiectau ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol drwy gydol y flwyddyn. Gan weithio ochr yn ochr ag ymchwilwyr, clinigwyr, llunwyr polisïau a phartneriaid trydydd sector, cefnogodd HCEC y gwaith o ddatblygu tystiolaeth economaidd fel sail i wneud penderfyniadau gofal iechyd, er mwyn gwella gwasanaethau ac ar gyfer ymchwil yn y dyfodol.

Roedd ein gwaith eleni yn cynnwys gwerthuso economaidd, syntheseiddio tystiolaeth, mesur canlyniadau, modelu ac asesu effeithiau cymdeithasol ac economaidd ehangach mewn gwasanaethau iechyd a gofal yng Nghymru a thu hwnt.



## Effaith yr Ymchwil

- Cefnogi datblygiad cofrestrfa hunan-niwed a thrais yng Nghymru yn y dyfodol.
- Cryfhau'r sail dystiolaeth ar gyfer gwerthuso cofrestrfeydd a chynllunio gwasanaethau hirdymor.
- Cefnogi dulliau seiliedig ar dystiolaeth o atal hunan-niwedio a thrais.
- Adeiladu cyfleoedd i gydweithio ar draws y llywodraeth, sefydliadau'r GIG a'r byd academiaidd.

### CYNORTHWYO I DDATBLYGU TYSTIOLAETH AR GYFER COFRESTRFEYDD HUNAN-NIWEIDIO A THRAIS

Mae'r prosiect Hunan-niwedio a Thrais a gyflwynir i Gofrestrfa Gofal Argyfwng (SaVER) yn gydweithrediad rhwng Prifysgol Bangor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sy'n canolbwyntio ar wella dealltwriaeth o hunan-niwedio ac achosion sy'n gysylltiedig â thrais sy'n dod i sylw gofal argyfwng yng Ngogledd Cymru.

Mae'r prosiect yn archwilio sut y gallai'r systemau data iechyd presennol helpu i ddatblygu cofrestrfa hunan-niwedio a thrais ddynodedig ar gyfer Cymru yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys archwilio llwybrau cleifion drwy ofal argyfwng, dadansoddi data a gesglir fel mater o drefn, a gweithio gyda rhanddeiliaid a mudiadau'r trydydd sector er mwyn cael gwell dealltwriaeth o anghenion gwasanaethau a chyfleoedd i wella.

Fel rhan o'r prosiect, arweiniodd ymchwilydd gyrfar gynnar HCEC Kalpa Pisavadia adolygiad cwmpasu systematig yn archwilio costau, costeffeithiolrwydd a gwerth ehangach cofrestrfeydd clinigol. Roedd yr adolygiad yn archwilio tystiolaeth ryngwladol yn ymwneud â sut y gall cofrestrfeydd gefnogi gwaith i wella gwasanaethau, cynllunio hirdymor a gwneud penderfyniadau gofal iechyd.

Roedd y canfyddiadau'n tynnu sylw at werth potensial cofrestrfeydd wrth wella ansawdd gofal, cynllunio gwasanaethau a gwneud penderfyniadau hirdymor, a hefyd yn cryfhau'r sail dystiolaeth ar gyfer datblygu cofrestrfeydd yn y dyfodol yng Nghymru. Cyflwynodd Kalpa Pisavadia ganfyddiadau o'r adolygiad economaidd yn y cyfarfod i randdeiliaid y prosiect a gynhaliwyd ym Mhortmeirion. Yn y cyfarfod roedd cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Byrddau Iechyd y GIG ledled Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, a sefydliadau academiaidd ledled y DU.



## RHAGLEN BOLD

### CEFNOGI GWELL CANLYNIADAU DRWY DDATA CYSYLLTIEDIG

Chwaraeodd ymchwilwyr HCEC ran allweddol yn y rhaglen BOLD, menter ledled y DU yn archwilio sut y gall data cysylltiedig helpu i sicrhau gwell canlyniadau i bobl â phroblemau alcohol a phroblemau cysylltiedig â chyffuriau sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol.

Gan weithio ochr yn ochr â phartneriaid a oedd yn cynnwys y Weinyddiaeth Gyfiawnder, yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chronfa Ddata SAIL, archwiliodd ymchwilwyr HCEC ddichonoldeb defnyddio data cyfiawnder troseddol ac iechyd cysylltiedig i gefnogi dadansoddiad economeg iechyd a gwneud penderfyniadau.

Roedd y gwaith yn cynnwys datblygu model cost-canlyniad yn archwilio canlyniadau sy'n gysylltiedig â Gofynion Triniaeth Dibyniaeth ar Alcohol (ATR) a Gofynion Adsefydlu Defnyddwyr Cyffuriau (DRR), gan gynnwys effeithiau ar ddefnyddio gofal iechyd mewn argyfwng, ymddangosiadau gerbron y llys, dedfrydau o garchar a marwolaethau.

Dangosodd y prosiect y rôl bwysig y gall economeg iechyd ei chwarae wrth gefnogi polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth a gwella dealltwriaeth o effeithiau ehangach ymyriadau yn y system iechyd a'r system gyfiawnder. Cyflwynodd ymchwilydd gyrfa gynnar HCEC Megan Davies ganfyddiadau ei gwaith yng Nghynhadledd Ymchwil a Gwerthuso Iechyd Cyhoeddus Cymru ym mis Rhagfyr 2025, gan dynnu sylw at ganfyddiadau'r gwerthusiad a photensial modelu economeg iechyd cysylltiedig â data ar gyfer y dyfodol.



## EFFEITH YR YMCHWIL

- Dangos gwerth data cysylltiedig ar gyfer ymchwil iechyd a chyfiawnder.
- Cefnogi gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar draws gwasanaethau cyhoeddus.
- Archwilio effeithiau ehangach ymyriadau triniaeth ar ganlyniadau iechyd a chyfiawnder troseddol.
- Cefnogi datblygiad ymchwilwyr gyrfa gynnar a chyfleoedd i ledaenu gwybodaeth.

# CYFRANNU ARBENIGEDD ECONOME G IECHYD I BROSES AU GWNEUD PENDERFYNIADAU A LLUNIO POLISI AU

Mae HCEC yn parhau i gyfrannu arbenigedd econome g iechyd i benderfyniadau polisi, cynllunio gwasanaeth a gwneud penderfyniadau ledled Cymru a'r DU yn ehangach drwy gydol y flwyddyn.

Gan weithio ar y cyd â llunwyr polisi au, sefydliadau'r GIG, timau iechyd cyhoeddus, elusennau a phartneriaid academiaidd, cefnogodd ymchwilwyr HCEC y gwaith o ddatblygu a defnyddio tystiolaeth economaidd i lywio blaenoriaethau gofal iechyd, gwella gwasanaethau a chryfhau dulliau iechyd a lles sy'n canolbwyntio ar atal.

Cyfrannodd ymchwilwyr HCEC arbenigedd ym meysydd iechyd cyhoeddus, gofal argyfwng, iechyd anadlol, iechyd meddwl, gwasanaethau golwg, y celfyddydau a llesiant, a defnyddio data cysylltiedig i gefnogi gwerthuso gwasanaethau a datblygu polisi au.


Mae'r enghreifftiau a ganlyn yn dangos sut y mae ymchwilwyr HCEC wedi helpu i siapio trafodaethau polisi, llywio gwaith cynllunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol a chryfhau rôl econome g iechyd wrth wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

## DYMA YCHYDIG O ENGHREIFFTIAU SY'N DANGOS SUT Y GWNAETHOM GEFNOGI'R GWAITH O WNEUD PENDERFYNIADAU A LLUNIO POLISI AU YNG NGHYMRU YN 2025/26:

- Cyfrannu arbenigedd econome g iechyd yng Nghymru i drafodaethau cenedlaethol ar newidiadau arfaethedig i drothwyon costeffeithiolrwydd NICE a'u goblygiadau ar gyfer gwneud penderfyniadau yn y GIG, gwariant cyhoeddus a mynediad teg at ofal.
- Cefnogi trafodaeth yn Grŵp Econome gwyr Iechyd Cymru ynglŷn â sut y gallai newidiadau i ddulliau o amcangyfrif gwerth ym maes iechyd effeithio ar werthuso, polisi ac ymarfer economaidd.
- Darparu mewnbwn econome g iechyd i ymchwil sy'n canolbwyntio ar wella mynediad at ofal a chefnogaeth a lleihau anghydraddoldebau.
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu dulliau sy'n canolbwyntio mwy ar y claf ar gyfer casglu data yn ymwneud â'r defnydd o adnoddau mewn treialon clinigol, gan helpu i sicrhau bod gwerthusiadau economaidd yn adlewyrchu anghenion o ran costau a chefnogaeth sy'n bwysig i gleifion, gofalwyr a theuluoedd.
- Cyfrannu tuag at ddatblygiadau methodolegol wrth fesur canlyniadau, gan gynnwys gwaith sy'n gysylltiedig â set gwerthoedd newydd EQ-5D-5L ar gyfer y DU a'i goblygiadau ar gyfer gwerthusiadau economaidd yn y dyfodol.
- Cryfhau'r defnydd o gynnwys y cyhoedd a phrofiad personol mewn ymchwil econome g iechyd, gan sicrhau bod dulliau gwerthuso yn cael eu siapio gan y bobl sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan ymyriadau iechyd a gofal.
- Addasu modelau drwy'r DU er mwyn dangos effeithiau economaidd rhaglenni'r celfyddydau yng Nghymru ar unigolion a chymdeithas.

# CYFRANNU TUAG AT DRAFODAETHAU CENEDLAETHOL AR WNEUD PENDERFYNIADAU YN Y GIG A CHYLLIDO MEDDYGINIAETHAU

Cyfrannodd ymchwilwyr HCEC tuag at drafodaethau cenedlaethol yn ymwneud â newidiadau arfaethedig i drothwyon costeffeithiolrwydd NICE a'r goblygiadau posibl ar gyfer gwneud penderfyniadau, gwariant cyhoeddus a mynediad teg at ofal yn y GIG.



Bu'r Athro Rhiannon Tudor Edwards, Katherine Cullen a Jacob Davies mewn symposiwm cenedlaethol wedi'i drefnu gan Ysgol Hylendid a Meddygaeth Drofannol Llundain a oedd yn archwilio'r cwestiwn, "Sut y dylid amcangyfrif gwerth iechyd wrth werthuso polisiau yn y DU?". Roedd y symposiwm yn dod ag economegwyr iechyd ac arbenigwyr polisi o bob rhan o'r DU at ei gilydd i drafod goblygiadau ehangach newidiadau arfaethedig i drothwyon ar gyfer gwneud penderfyniadau gofal iechyd, gwariant cyhoeddus ac anghydraddoldebau iechyd.

Roedd y trafodaethau hyn yn sail i weithgareddau ymgysylltu ehangach yn cael eu harwain gan ymchwilwyr HCEC yn ymwneud â goblygiadau cynyddu gwariant y GIG o safbwynt meddyginiaethau newydd a'r effaith bosibl ar y gwasanaethau gofal iechyd presennol, atal a buddsoddi mewn iechyd cyhoeddus. Fel rhan o'r gwaith hwn, ysgrifennodd yr Athro Rhiannon Tudor Edwards erthygl sydd wedi cael ei darllen yn eang ar gyfer The Conversation. Roedd yn trafod canlyniadau posibl cynyddu gwariant y GIG ar feddyginiaethau newydd a phwysigrwydd cynnal dulliau seiliedig ar dystiolaeth o wneud penderfyniadau yn ymwneud â gofal iechyd.

Roedd goblygiadau newidiadau posibl i'r trothwyon ar gyfer polisiau a dulliau gwerthuso economaidd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru hefyd yn bwynt trafod creiddiol yng nghyfarfod Grŵp Economegwyr Iechyd Cymru (WHEG) ym mis Mawrth 2026, gan helpu i gefnogi trafodaeth barhaus a chydweithio yng nghymuned economeg iechyd Cymru.

## Effaith ein cyfraniad

- Cyfrannu arbenigedd mewn economeg iechyd yng Nghymru i drafodaethau polisi cenedlaethol.
- Cefnogi trafodaeth seiliedig ar dystiolaeth ynglŷn â gwerth am arian a mynediad teg at ofal.
- Helpu i lywio trafodaeth ar ddyfodol gwerthuso economaidd ym maes iechyd yng Nghymru a'r DU.
- Codi proffil ymchwil HCEC drwy ymgysylltu â'r cyhoedd a chydweithio ar lefel genedlaethol.





**Women's Empowerment: Cervical  
screening Access, Recovery & Empathy**



Mae'r prosiect WE CARE yn gydweithrediad ymchwil rhwngwladol pum mlynedd sy'n cael ei arwain gan Dr Ceryl Davies ac yn cael ei ariannu gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a Gofal (NIHR). Mae'r prosiect yn archwilio sut y gellir gwella gwasanaethau sgrinio serfigol i fenywod sydd wedi profi trais a cham-drin rhywiol.

Mae'r prosiect yn dod â phartneriaid academiaidd rhwngwladol at ei gilydd, gan gynnwys Prifysgol Monash yn Awstralia a Phrifysgol Uppsala yn Sweden, ynghyd ag arbenigwyr clinigol, sefydliadau cefnogi arbenigol, a chyfranwyr cyhoeddus. Mae'r dull cydweithredol hwn yn helpu i sicrhau bod yr ymchwil yn seiliedig ar arbenigedd academiaidd, gwybodaeth am wasanaethau a phrofiad personol.

Nod WE CARE yw cefnogi gofal sgrinio serfigol mwy hygyrch, tosturiol a sensitif. Cyfrannodd ymchwilwyr HCEC wybodaeth economeg gofal ac iechyd i'r prosiect ynghyd â chefnogaeth ehangach i ymgysylltu â'r cyhoedd, cyfle i ledaenu gwybodaeth a gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth.

Mae'r prosiect wedi cyrraedd nifer o gerrig milltir pwysig, gan gynnwys lansio gwefan WE CARE a datblygu podlediadau a blogiau sydd wedi'u cynllunio er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth, rhannu canfyddiadau ymchwil a chefnogi ymgysylltiad cyhoeddus a phroffesiynol ehangach.

Mae'r prosiect yn mynd ymlaen yn awr i'r cam gwaith maes er mwyn archwilio profiadau menywod o sgrinio serfigol yn dilyn trais a cham-drin rhywiol. Cefnogwyd gweithgareddau recriwtio drwy gydweithio â sefydliadau arbenigol, megis Clinig My Body Back, ymgysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol a deunyddiau cyfathrebu ar gyfer y cyhoedd.

Yn ogystal â'r gweithgaredd ymchwil, mae'r prosiect wedi parhau i roi blaenoriaeth i gynnwys ac ymgysylltu'n ystyrlon â'r cyhoedd, gan sicrhau bod persbectifau profiad personol yn parhau'n ganolog i ddatblygu a chyflawni'r ymchwil.

## EEFAITH YR YMCHWIL

- Cefnogi ymchwil i wella gofal sgrinio serfigol i fenywod sydd wedi dioddef trais a cham-drin rhywiol.
- Hybu gofal sgrinio serfigol tosturiol a sensitif.
- Cryfhau ymgysylltu â'r cyhoedd drwy bodlediadau, blogiau a chyfathrebu digidol.
- Cefnogi recriwtio cynhwysol a chynnwys profiad personol wrth ddatblygu ymchwil.

# ADEILADU GALLU METHODOLEGOL MEWN ECONOME G I ECHYD

## CYNNWYS LLEISIAU CLEIFION WRTH DDATBLYGU DULLIAU O FESUR DEFNYDD O ADNODDAU AR GYFER TREIALON CLINIGOL

Gall dulliau cyffredinol o fesur y defnydd o adnoddau adael bylchau pan nad yw cleifion, gofalwyr a phobl eraill sydd wedi'u heffeithio gan ymyriad wedi cael eu cynnwys yn y broses o'u dylunio. Gan fod y dulliau hyn o fesur yn aml ymhlith yr offerynnau hiraf mewn holiaduron treialu, mae mewnbwn cleifion yn bwysig er mwyn gwella perthnasedd ac ymgysylltiad.

Mae ymchwilwyr HCEC wedi gweithio gyda grwpiau cynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd a chleifion mewn astudiaethau amrywiol ar ddementia prin (RD-Talk), wlsrau diabetig ar draed (REDUCE), symptomau'r menopos (ESTEEM) a defnyddwyr technoleg gynorthwyl (AdaptQoL) er mwyn datblygu dulliau o fesur defnydd o adnoddau â chyflyrau penodol mewn treialon sy'n mynd rhagddynt. Mae'r mewnbwn hwn yn arbennig o werthfawr mewn ymyriadau cymhleth, ac yn aml yn nodi adnoddau na fyddent o bosibl wedi cael eu hystyried gan y tîm ymchwil.

Yn yr astudiaethau hyn, bu ymchwilwyr HCEC yn gweithio gyda grwpiau cynnwys ac ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd, gweithwyr proffesiynol gofal iechyd a rhanddeiliaid eraill gan ddefnyddio dulliau Delphi wedi'u haddasu. Darparwyd gwybodaeth ar gyfer y rhestrau cychwynnol o eitemau gan arbenigwyr proffesiynol, cyd-ymchwilwyr ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd ac adolygiadau o lenyddiaeth, yna profwyd hwy gyda gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd a phobl sydd â phrofiad personol cyn cael eu treialu yng nghanau cynnar treialon.

Mae'r dull gweithredu hwn yn helpu i sicrhau bod gwerthusiadau economaidd yn cynnwys adnoddau sy'n bwysig i gleifion, teuluoedd a gofalwyr, gan wella perthnasedd, ansawdd a derbynioldeb data ynglŷn â defnydd o adnoddau a gesglir mewn treialon clinigol.

## DOD Â THEGWCH I WERTHUSIAD ECONOMAIDD O I ECHYD

Cyfrannodd ymchwilwyr HCEC arbenigedd econome g iechyd i IMP2ART-E, astudiaeth yn cael ei hariannu gan NIHR a oedd yn archwilio a yw cefnogaeth i hunanreoli asthma yn cyrraedd gwahanol gymunedau yn gyfartal.

O safbwynt methodolegol, mae'r prosiect yn bwysig oherwydd ei fod yn mynd y tu hwnt i ofyn a yw ymyriad yn effeithiol neu'n gosteifeithiol ar gyfartaledd. Yn hytrach, mae'n archwilio sut y gall costau, canlyniadau a mynediad amrywio rhwng gwahanol grwpiau yn y boblogaeth, gan gynnwys cymunedau a allai brofi rhwystrau yn gysylltiedig ag amddifadedd, ethnigrwydd, iaith, mynediad digidol, neu amgylchiadau cymdeithasol ehangach.

Cefnogodd mewnbwn HCEC y gwaith o ddatblygu dull gwerthusiad economaidd sy'n ystyried gwerth am arian a thegwch. Mae hyn yn cynnwys meddwl pwy sy'n cael budd o gymorth i hunanreoli asthma, a yw'r buddion yn cael eu dosbarthu'n deg, a sut y gall tystiolaeth economaidd lywio penderfyniadau yn ymwneud ag anghydraddoldebau iechyd yn well. Mae'r prosiect yn dangos sut y gall econome g iechyd gefnogi gwerthusiad mwy cynhwysol.

## Effaith yr Ymchwil

Gyda'i gilydd, mae'r prosiectau hyn yn dangos sut mae ymchwilwyr HCEC yn helpu i:

- Wneud gwerthusiadau economaidd yn fwy perthnasol i gleifion, gofalwyr a chymunedau.
- Sicrhau bod casglu data treialon yn adlewyrchu profiadau o'r byd go iawn ac angen am gymorth.
- Gwella ansawdd a derbynioldeb dulliau o fesur defnydd o adnoddau mewn treialon clinigol.
- Symud y tu hwnt i ganlyniadau cyfartalog drwy ystyried pwy sy'n cael budd o ymyriadau.
- Cefnogi dulliau tecach, mwy cynhwysol ar gyfer gwerthusiad economaidd o iechyd.
- Cryfhau tystiolaeth er mwyn llywio gwasanaethau sy'n adlewyrchu anghenion poblogaethau amrywiol yn well.

# CEFNOGI DATBLYGIADAU MAWR YM MAES MESUR CANLYNIADAU

SET GWERTHOEDD EQ-5D-5L

Roedd Dr Nathan Bray yn gyd-ymgeisydd ac arweinydd safle ar gyfer Cymru ym mhrosiect datblygu set gwerthoedd EQ-5D-5L y DU a oedd yn cael ei ariannu gan EuroQol. Datblygodd yr astudiaeth bwysig hon system sgorio newydd ar gyfer yr EQ-5D-5L, un o'r offerynnau a ddefnyddir amlaf ar gyfer mesur ansawdd bywyd yn gysylltiedig ag iechyd mewn asesiadau technoleg iechyd a gwerthusiadau economaidd.

Roedd y prosiect yn defnyddio dulliau o ganfod a modelu dewisiadau er mwyn datblygu set werthoedd newydd ar gyfer y DU, y disgwylir iddi gael effaith sylweddol ar ymchwil, ymarfer clinigol a chanllawiau NICE yn y dyfodol. Fel arweinydd safle ar gyfer Cymru, roedd Dr Bray yn rheoli'r gwaith o gasglu data ledled Cymru, yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu offer casglu data Cymraeg, ac yn helpu i sicrhau cynrychiolaeth o boblogaeth Cymru yn yr astudiaeth.

Uchafbwynt y prosiect oedd cyhoeddi set werthoedd newydd EQ-5D-5L ar gyfer y DU ym mis Mawrth 2026, ynghyd â chyhoeddiad cysylltiedig yn Value in Health. Mae'r gwaith hwn yn adlewyrchu cyfraniad HCEC i ddatblygiadau methodolegol mawr ym maes mesur canlyniadau a gwerthusiadau economeg iechyd.

MOBQOL-7D

Mae'r MobQoL-7D (Symudedd ac Ansawdd Bywyd) yn ddull dilys o fesur ansawdd bywyd sy'n gysylltiedig â symudedd, a ddatblygwyd gan Dr Nathan Bray a'r Athro Rhiannon Tudor Edwards. Mae'r mesur yn cynnwys arolwg ynghyd â chyfrifiannell sgorio sy'n seiliedig ar ddewisiadau, ac mae ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Yn ystod 2025/26, bu Dr Bray yn gweithio gyda Firevaned, cymdeithas ddiwydiannol yn yr Iseldiroedd ar gyfer darparwyr cymhorthion adsefydlu a symudedd, er mwyn dilysu fersiwn Iseldireg o'r MobQoL-7D. Roedd yr astudiaeth yn ymwneud ag oedolion yn yr Iseldiroedd sy'n byw ag amhariad symudedd hirdymor ac yn profi a oedd y dull o fesur yn ddilys ac yn ddibynadwy yn y cyd-destun newydd hwn.

Erbyn hyn mae'r canfyddiadau wedi cael eu cyhoeddi yn Disabilities, gan gefnogi defnydd rhyngwladol ehangach o'r MobQoL-7D a chryfhau cyfraniad HCEC i ymchwil mesur canlyniadau y tu hwnt i Gymru.

OFFERYNNAU WATCH

Mae WATCH (Offerynnau Asesu Canlyniadau Cadair Olwyn), a ddatblygwyd yn CHEME, yn darparu ffordd ymarferol o fesur canlyniadau i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau cadair olwyn. Mae WATCH wedi cael ei gydnabod yn rhyngwladol, gan gynnwys cael ei enwi fel esiampl o offeryn mesur canlyniadau yng nghanllawiau Sefydliad Iechyd y Byd ar ddarparu cadeiriau olwyn. Mae'r offeryn bellach yn cael ei ddefnyddio mewn ymarfer ac ymchwil yn rhyngwladol, gan arddangos cyrhaeddiad ehangach ac effaith gwaith methodolegol CHEME wrth fesur canlyniadau.

## Effaith yr ymchwil

- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu dulliau o fesur canlyniadau a'u dilysu'n rhyngwladol.
- Cryfhau dulliau ar gyfer mesur ansawdd bywyd sy'n gysylltiedig â symudedd.
- Ehangu'r defnydd o offer economeg iechyd a ddatblygwyd yng Nghymru y tu hwnt i'r DU.



# AdaptQoL

## DATBLYGU DULLIAU NEWYDD O FESUR ANSAWDD BYWYD

Mae Dr Nathan Bray yn arwain prosiect AdaptQoL (Addasu ac Ansawdd Bywyd), sy'n datblygu dull newydd o fesur ansawdd bywyd i bobl sy'n defnyddio technolegau cynorthwyol ac addasiadau i gartrefi. Cefnogwyd y prosiect yn rhannol drwy gyllid HCEC.

Gall technolegau cynorthwyol ac addasiadau, megis cymhorthion symudedd, dyfeisiau cyfathrebu ac addasiadau i gartrefi, gael effaith sylweddol ar annibyniaeth, hyder a chyfranogiad mewn bywyd bob dydd. Fodd bynnag, nid yw'r dulliau presennol o fesur ansawdd bywyd a ddefnyddir mewn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yn cofnodi'r buddion ehangach hyn bob amser.

Nod prosiect AdaptQoL yw mynd i'r afael â'r bwlch hwn drwy ddatblygu dull newydd o fesur ansawdd bywyd sy'n canolbwyntio ar gleifion ac sydd wedi'i ddylunio'n benodol ar gyfer pobl sy'n defnyddio technolegau cynorthwyol ac addasiadau. Mae'r prosiect yn dod ag ymchwilwyr, clinigwyr a chyfranwyr cyhoeddus o bob cwr o'r DU at ei gilydd er mwyn sicrhau bod profiad personol yn ganolog i'r broses ddatblygu.

Mae'r prosiect yn adlewyrchu pwysigrwydd cynyddol datblygu dulliau o fesur canlyniadau sy'n cofnodi effeithiau ymyriadau iechyd a gofal cymdeithasol yn y byd go iawn yn well a chefnogi dulliau gwerthuso a gwneud penderfyniadau sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn.

## Pam y mae hyn o bwys

Nid yw dulliau traddodiadol o fesur ansawdd bywyd bob amser yn cofnodi buddion ehangach technolegau cynorthwyol ac addasiadau, megis annibyniaeth, hyder a chyfranogiad mewn bywyd bob dydd. Nod AdaptQoL yw mynd i'r afael â'r bwlch hwn a chefnogi dulliau gwneud penderfyniadau sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

## EFFEITH YR YMCHWIL

- Datblygu dull newydd o fesur ansawdd bywyd ar gyfer pobl sy'n defnyddio technolegau cynorthwyol ac addasiadau.
- Cefnogi dulliau o werthuso iechyd a gofal cymdeithasol sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn.
- Cryfhau gwerthusiadau economaidd a phenderfyniadau yn ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol.
- Ymwreiddio profiad personol a chynnwys y cyhoedd wrth ddatblygu dulliau o fesur.

# CEFNOGI'R GENHEDLAETH NESAF O YMCHWILWYR ECONOMEG IECHYD

Roedd cefnogi'r gwaith o ddatblygu ymchwilwyr gyrfa gynnar yn parhau yn flaenoriaeth allweddol i Economeg Iechyd a Gofal Cymru (HCEC) drwy gydol 2025/26. Parhaodd ymchwilwyr HCEC i adeiladu arbenigedd ym maes economeg iechyd gymhwysol a methodolegol drwy gymryd rhan mewn prosiectau ymchwil yn cael eu hariannu, cyflwyniadau mewn cynadleddau, cyhoeddiadau, gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth a chydweithredïadau cenedlaethol.

Yn ystod y flwyddyn gwelwyd ymchwilwyr gyrfa gynnar yn cymryd rolau arweiniol wrth lledaenu ymchwil, cyfrannu tuag at ddatblygu grantiau, cyflwyno canfyddiadau i randdeiliaid a llunwyr polisïau, a chryfhau partneriaethau ymchwil cenedlaethol a rhyngwladol.

Longyfarchiadau

## MYFYRDODAU YMCHWILYDD GYRFA GYNNAR: MEGAN DAVIES YNG NGHYNHADLEDD BROFFESIYNOL DIABETES UK


Aeth yr ymchwilydd gyrfa gynnar Megan Davies i Gynhadledd Broffesiynol Diabetes UK (DUKPC) yn Lerpwl, lle bu'n archwilio'r datblygiadau cyfredol mewn gofal diabetes, anghydraddoldebau iechyd ac ymchwil sy'n canolbwyntio ar gleifion.

Roedd y gynhadledd yn amlygu'r gydnabyddiaeth gynyddol o economeg iechyd fel elfen hanfodol o ymchwil gofal iechyd a darparu gwasanaeth, ynghyd â phwysigrwydd sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu dylunio er mwyn diwallu anghenion poblogaethau a chymunedau amrywiol.

Roedd y sesiynau'n archwilio rhwystrau sy'n atal mynediad at dechnolegau a gwasanaethau diabetes, gan gynnwys heriau cymdeithasol-economaidd, diwylliannol a chysylltiedig ag iaith, yn ogystal â phwysigrwydd dulliau gofal ataliol. Aeth Megan hefyd i sesiynau a oedd yn canolbwyntio ar heintiau traed sy'n gysylltiedig â diabetes ac ymyriadau ataliol. Darparodd y rhain fewnwelediad gwerthfawr ar gyfer ei gwaith ar brosiect REDUCE.

Yn ychwanegol at hyn, roedd y gynhadledd yn gyfle i adeiladu rhwydweithiau proffesiynol, datblygu sgiliau cyflwyno a chyfathrebu, ac ymgysylltu ag ymchwilwyr, clinigwyr a phobl sydd â phrofiad personol o bob rhan o'r gymuned ymchwil diabetes.

"Roedd economeg iechyd yn dod i'r amlwg fel disgyblaeth y mae galw mawr amdani drwy gydol y gynhadledd. Roedd llawer o'r rhai a oedd yn bresennol yn ei disgrifio fel 'llwch aur', gan amlygu ei gwerth a'i phrinder. Cadarnhaodd y gynhadledd pa mor bwysig yw dulliau teg sy'n canolbwyntio ar y cleifion er mwyn siapio ymchwil a darparu gwasanaethau ystyrlon."



Megan Davies, Ymchwilydd  
Gyrfa Gynnar HCEC

## CYFNEWID GWYBODAETH YN RHYNGWLADOL DRWY GYLLID SYMUDEDD TAITH

Ea llwyddodd yr ymchwilwyr gyrfa gynnar Pim Doungsong a Kalpa Pisavadia i gael Cyllid Symudedd Taith i gefnogi gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth a chydweithio rhyngwladol.

Dyfarnwyd y cyllid i Pim Doungsong i gefnogi ymweliad archwilio mis o hyd i Ganolfan Economeg Iechyd Denmarc ym Mhrifysgol De Denmarc ym mis Medi 2026. Â chefnogaeth yr Athro Line Bjørnskov Pedersen a'r Athro Dorte Gyrd-Hansen, bydd yr ymweliad yn cyfrannu tuag at ddatblygiad ymchwil PhD Pim.

Dyfarnwyd cyllid i Kalpa Pisavadia i ymweld â'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Gwybodaeth am Drais gan Ddynion yn Erbyn Menywod (NCK) ym Mhrifysgol Uppsala yn Sweden. Mae'r ymweliad yn canolbwyntio ar gyfnewid gwybodaeth sy'n ymwneud ag ymchwil i gam-drin domestig, gan helpu i gryfhau dimensiynau dadansoddol a rhyngwladol ei hymchwil PhD.

Bydd y ddau ddyfarniad cyllid symudedd hyn yn helpu i gyfnewid arferion ymchwil ac yn cefnogi cydweithio rhwng prifysgolion.



## GRŴP ASTUDIO ECONOMEGWYR IECHYD (HESG) HAF 2025



Cefnogodd cyllid HCEC yr ymchwilydd gyrfa gynnar Megan Davies i fynd i gyfarfod haf y Grŵp Astudio ar gyfer Economegwyr Iechyd (HESG), digwyddiad pwysig i gymuned economeg iechyd y DU sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol, cyfnewid gwybodaeth a rhwydweithio.

Fel rhan o'r cyfarfod, cadeiriodd Megan sesiwn trafod papur, gan baratoi ymlaen llaw drwy wneud adolygiad beirniadol o'r papur a nodi pwyntiau allweddol ar gyfer trafodaeth. Roedd y gynhadledd hefyd yn darparu cyfleoedd i ddod i gysylltiad ag ystod eang o ymchwil economeg iechyd cyfredol drwy gyflwyniadau poster, sgysiau byr a sesiynau rhwydweithio.

Roedd y themâu allweddol a drafodwyd drwy gydol y cyfarfod yn cynnwys heriau yn ymwneud â mynediad at ddata ymchwil, effaith hirdymor COVID-19 ar ymchwil iechyd a dadansoddi, a datblygiadau yn ymwneud â set ddata newydd EQ-5D-5L y DU a fydd yn dylanwadu'n sylweddol ar ddulliau gwerthuso economeg iechyd yn y dyfodol.

Wrth fyfyrio ar y profiad, cyfeiriodd Megan at werth cydweithio, y gallu i addasu a dysgu'n barhaus mewn ymchwil academiaidd, yn ogystal â phwysigrwydd cyfathrebu a lledaenu canfyddiadau ymchwil yn effeithiol.

# EIN PRIF GYHOEDDIADAU

## Mae ein prif gyhoeddiadau yn 2025/26 yn cynnwys:

- Rowen D, Mukuria C, **Bray N**, Carlton J, Longworth L, Meads D, Oluboyede Y, O'Neill C, Yang Y. A UK value set for the EQ-5D-5L. *Value in Health*. 2026 Mar 24.
- **Cullen K**, Brotherhood EV, Hayes O, Mansfield V, Suarez-Gonzalez A, Zimmermann N, Stott J, **Fitzsimmons D**. Development of a resource use measure to capture costs related to unpaid care for people living with non-memory led dementia: a modified Delphi study. *BMJ open*. 2026 Feb;16(2):e110399.
- Rutten-van Mölken M, **Whiteley H**, Babarczy B, **Davies J**, Goossens L, Papartyte L, Maassen A, Nagy B, Wright S, **Edwards RT**, Invest4Health Consortium. Broadening sources of finance for health promotion and disease prevention: Smart capacitating investment. *The European Journal of Health Economics*. 2025 Dec 29:1-20.
- **Harris SR, Sewell B**, Busse-Morris M, Edwards A, Jones F, Leggat F, Pallman P, **Fitzsimmons D**. Cost-effectiveness of a personalised self-management intervention for people living with long Covid: the LISTEN randomised controlled trial. *Health Expectations*. 2025 Aug;28(4):e70357.
- Koleva-Kolarova R, Hulse E, Németh B, Rutten-van Mölken M, **Edwards RT**, Babarczy B, Nagy B, Wordsworth S, Tsiachristas A, Invest4Health consortium. Towards a Multi-sectoral Approach to Population Health: A Scoping Review of Cross-sectoral Evaluations of Health Interventions. *Applied Health Economics and Health Policy*. 2026 Feb 23:1-9.
- Krepper D, Hubel NJ, Vorbach SM, van der Weijst L, Machingura A, Seidl C, Giesinger JM, Sztankay M, Kern S, **Fitzsimmons D**, Pe M. What's missing in patient-reported outcome reporting? A scoping review and aggregated trial-level analysis of completion rates in oncology randomized controlled trials. *Critical Reviews in Oncology/Hematology*. 2026 Feb 1;218:105100.
- **Fitzsimmons D, Cullen K**. Economic evaluation of sensory impairments related to dementia. In *A New Approach to Dementia* (pp. 119-140). Routledge.
- **Pisavadia K, Doungsong K, Ezeofor V, Spencer LH, Tuersley L**, Best C, Meades R, Ayers S, Hutton U, Moran PM, Shakespeare J, **Edwards RT**. Healthcare use and costs of perinatal anxiety: a UK NHS perspective. *BMC Health Services Research*. 2025 Sep 3;25(1):1183.

**Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am gyhoeddiadau HCEC, [ewch i wefan HCEC](#).**

# Ffarwel a Dymuniadau Gorau i Dr Ned Hartfiel



## A Diolch



Yn 2026, ffarweliodd y Ganolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau (CHEME) â Dr Ned Hartfiel. Mae ei waith dros y ddau ddegawd diwethaf wedi gwneud cyfraniad sylweddol i economeg iechyd gymhwysol, ymchwil lles a methodoleg Adenillion Cymdeithasol o Fuddsoddi (SROI) ym Mhrifysgol Bangor a thu hwnt.

Ar ôl cwblhau PhD mewn Economeg Iechyd ym Mhrifysgol Bangor, a oedd yn canolbwyntio ar gosteffeithiolrwydd ioga ar gyfer cyflyrau cyhyrsgerbydol, daeth Ned yn aelod hollbwysig o CHEME. Dros y blynyddoedd, cyfrannodd yn helaeth i ymchwil yn rhychwantu iechyd y cyhoedd, iechyd a lles meddyliol, gofal dementia, gwerth cymdeithasol, ac ymyriadau nad oeddent yn rhai ffarmacolegol, bob amser â phwyslais cryf ar effaith yn y byd go iawn a gwella ansawdd bywyd.

### METHODOLEG ADENILLION CYMDEITHASOL O FUDDSODDIAD

Mae gwaith Ned wedi helpu i gryfhau'r broses o gymhwyso methodoleg SROI mewn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol ac wedi cefnogi dealltwriaeth ehangach o sut y gall ymyriadau gynhyrchu gwerth cymdeithasol, economaidd a chymunedol y tu hwnt i ganlyniadau gofal iechyd traddodiadol. Roedd ei gyfraniadau'n cynnwys gwerthusiadau cymhwysol, adolygiadau systematig ac ymchwil rhyngddisgyblaethol a oedd yn dod ag economeg iechyd, canlyniadau lles a gwerthuso rhaglenni at ei gilydd.

Yn ogystal â'i weithgaredd ymchwil, chwaraeodd Ned ran bwysig drwy gefnogi cydweithwyr ac ymchwilwyr gyrfa gynnar a oedd â diddordeb mewn SROI a dulliau gwerth cymdeithasol. Mae ei fentoriaeth, ei haelioni a'i ddull cydweithredol o weithio wedi helpu i feithrin hyder ac arbenigedd methodolegol mewn ystod o brosiectau a thimau ymchwil.

### HWB GWERTH CYMDEITHASOL

Bu Ned hefyd yn gwasanaethu fel cyd-gyfarwyddwr yr Hwb Gwerth Cymdeithasol, gan helpu i sefydlu a datblygu'r Hwb fel man ar gyfer cydweithio, cyfnewid gwybodaeth a datblygu methodolegol mewn ymchwil ac ymarfer gwerth cymdeithasol. Yn dilyn ei ymadawiad â CHEME a Phrifysgol Bangor, mae cyd-gyfarwyddiaeth o'r Hwb Gwerth Cymdeithasol wedi'i gymryd drosodd yn awr gan Kalpa Pisavadia ar y cyd â'r Athro Rhiannon Tudor Edwards.

Drwy gydol ei yrfa, mae Ned wedi cael ei gydnabod am ei gyfraniadau academiaidd, a hefyd am ei garedigrwydd, ei onestrwydd a'i ymrwymiad i gefnogi pobl eraill. Mae ei waith wedi helpu i ddod ag ymchwil Prifysgol Bangor i gynulleidfaoedd cenedlaethol a rhyngwladol ehangach ac mae wedi cael effaith barhaol ar gydweithwyr, cydweithredwyr a'r gymuned economeg iechyd ehangach.

**HOFFEM DDIOLCH I NED AM EI GYFRANIAD EITHRIADOL I CHEME, I BRIFYSGOL BANGOR AC I FAES ECONOMEG IECHYD GYMHWYSOL!**

# Ein Prif Gydwethredwyr

## ACADEMAIDD

- Prifysgol Bangor
- Prifysgol Abertawe
- Prifysgol Caerdydd
- Prifysgol Aberystwyth
- Prifysgol Nottingham
- Prifysgol De Cymru
- Prifysgol Southampton
- Prifysgol Caeredin
- Coleg Prifysgol Llundain
- Prifysgol Caerefrog
- Prifysgol Bryste
- Prifysgol St George
- Coleg y Brenin Llundain
- Prifysgol Lerpwl
- Prifysgol Birmingham
- Prifysgol Edge Hill

## SEILWAITH YMCHWIL IECHYD A GOFAL CYMRU

- Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl
- Canolfan Ymchwil Cancer Cymru
- Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
- Cronfa Ddata SAIL
- PRIME Cymru
- Biofanc Cancer Cymru
- Partneriaeth CASCADE
- DECIPHer
- Canolfan Niwrotherapiau Uwch
- Uned Ymchwil Arennol Cymru
- Canolfan Treialon Ymchwil
- Rhwydwaith Cenedlaethol Ymchwil Gardiofasgwlaidd

## SEFYDLIADAU'R GIG A SEFYDLIADAU GOFAL

- BIP Aneurin Bevan
- BIP Betsi Cadwaladr
- BIP Caerdydd a'r Fro
- BIP Cwm Taf Morgannwg
- BIP Bae Abertawe
- BIP Hywel Dda
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Felindre
- Sgrinio Serfigol Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Barts
- Clinig My Body Back™
- Matia Instituto

## RHYNGWLADOL

- Sefydliad Ewropeaidd ar gyfer Ymchwil a Thrin Cancer
- Consortiwm Invest4Health
- Prifysgol Monash
- Prifysgol Uppsala

## CYDWEITHREDWYR ERAILL

- Cyngor ar Bopeth
- Menter Cancer Moondance
- Ymchwil Cancer y DU
- Consortiwm Trais, Iechyd a Chymdeithas (VISION)
- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Sefydliad Gogledd Cymru ar gyfer Treialon ar Hap mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (NORTH)

# DYFODOL ECONOME G IECHYD

Wrth i systemau iechyd barhau i wynebu pwysau cynyddol o ganlyniad i boblogaethau sy'n heneiddio, anghydraddoldebau ehangach, newid hinsawdd, heriau gweithlu, a chostau cynyddol gofal iechyd, mae rôl economeg iechyd yn debygol o fod yn fwy a mwy pwysig dros y degawdau nesaf. Bydd angen i ddulliau gweithredu sy'n dod i'r amlwg ym maes economeg iechyd y cyhoedd symud y tu hwnt i fodelau traddodiadol sy'n canolbwyntio'n bennaf ar ddefnyddio triniaeth a gofal iechyd, tuag at gysyniadau ehangach yn ymwneud ag atal, llesiant, tegwch, a gwerth cymdeithasol hirdymor.

Mae cydnabyddiaeth gynyddol yn rhyngwladol bod gwella iechyd poblogaeth yn galw am ymyriadau cynharach a mwy o fuddsoddiad mewn atal. Mae strategaeth Llywodraeth Cymru, Cymru Iachach, a Chynllun Iechyd 10 Mlynedd y GIG ar gyfer Lloegr ill dau'n rhoi pwyslais cryf ar atal, trawsnewid digidol, cydgynhyrchu, cynaliadwyedd, a gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth. Mae'r newidiadau hyn yn debygol o ddylanwadu ar gyfeiriad ymchwil a pholisi economeg iechyd yn y dyfodol.

Disgwylir i economeg iechyd y cyhoedd yn y dyfodol hefyd fynd yn fwy a mwy rhyngddisgyblaethol a seiliedig ar ddata. Gall datblygiadau mewn deallusrwydd artifisial (AI), genomeg, iechyd y cyhoedd manwl, a thechnolegau iechyd digidol drawsnewid y ffordd y caiff tystiolaeth ei chynhyrchu, ei dadansoddi, a'i chymhwyso mewn systemau iechyd. Mae gan AI y potensial i gyflymu syntheseiddio tystiolaeth, modelu economaidd, a'r defnydd o ddata ar raddfa fawr o'r byd go iawn, tra'n parhau i fod angen goruchwyliaeth fanwl gan bobl er mwyn sicrhau tryloywder, ansawdd, a thegwch.

Yr un pryd, bydd angen i economegwyr iechyd ymateb i'r heriau cymdeithasol cymhleth sy'n ymestyn y tu hwnt i systemau gofal iechyd yn unig. Mae newid hinsawdd, mudo, anghydraddoldebau iechyd meddwl, newid mewn patrymau gwaith, a phenderfyniadau cymdeithasol iechyd i gyd yn debygol o arwain at oblygiadau dwys o ran iechyd y boblogaeth yn y dyfodol a gwerthuso economaidd. Disgwylir y bydd cwestiynau yn ymwneud â sut rydym yn amcangyfrif gwerth atal, lles, cynaliadwyedd amgylcheddol, a thegwch yn dod yn gynyddol ganolog i wneud penderfyniadau ynglŷn â pholisïau iechyd.

Yn y dirwedd hon sy'n esblygu, mae HCEC mewn sefyllfa dda i gyfrannu tuag at ddatblygu economeg iechyd yn y dyfodol yng Nghymru ac yn rhyngwladol. Mae'r gwaith presennol yn HCEC eisoes yn adlewyrchu llawer o'r blaenoriaethau hyn ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys ymchwil sy'n canolbwyntio ar atal, economeg lles, cynnwys y cyhoedd a chydgyhyrchu, dulliau sy'n seiliedig ar werth, ac arloesi methodolegol mewn gwerthuso economaidd.

Gan edrych tua'r flwyddyn 2050, mae'n debyg y bydd economeg iechyd yn chwarae rôl hollbwysig wrth werthuso ymyriadau gofal iechyd, a hefyd wrth helpu i ddylunio systemau iachach, tecach, mwy cynaliadwy, ac sy'n canolbwyntio ar werth, sy'n gwella canlyniadau i unigolion, cymunedau, a'r gymdeithas ehangach.

*Yr Athro Rhianon Tudor Edwards*

# Darganfod Rhagor

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am Economeg Iechyd a Gofal Cymru, ein gwaith a sut y gallwn eich cefnogi chi, ewch i'n gwefan:

<https://www.bangor.ac.uk/cy/hcec>

## YMUNWCH Â NI AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL



<https://facebook.com/economicscymru/>



<https://www.linkedin.com/company/health-and-care-economics-cymru/>

## CYSYLLTU Â NI

Os hoffech gael cyngor yn ymwneud ag economeg iechyd neu os hoffech drafod sut y gallwn ni eich cefnogi chi â'ch ymchwil, mae croeso i chi anfon e-bost atom:

Ar gyfer De Cymru - [HCEC@swansea.ac.uk](mailto:HCEC@swansea.ac.uk) (Prifysgol Abertawe)

Ar gyfer Gogledd Cymru - [HCEC@bangor.ac.uk](mailto:HCEC@bangor.ac.uk) (Prifysgol Bangor)

